

Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol

Cofnodion

Teitl y cyfarfod:

Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm) ar Lygredd Amaethyddol

Lleoliad: Cyfarfod Microsoft Teams

Dyddiad y cyfarfod: 27 Mawrth 2023

Yn bresennol:

Zoe Henderson, Cadeirydd ac Aelod o Fwrdd CNC

Rhys A. Jones, Aelod o Fwrdd CNC

Dav Letellier, CNC

Dennis Matheson, TFA

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Fraser McAuley, CLA

Nichola Salter, CNC

Bernard Griffiths, FUW

Marc Williams, CNC

David Ball, AHDB

Russ Thomas, HCC

Hefyd yn bresennol:

John Williams, ADAS (Eitem 5)

Yr Athro Chris Collins, CNC (Eitem 6)

Dr Liz Bagshaw, Prifysgol Caerdydd (Eitem 6)

Jon Harrington, Prifysgol Caerdydd

Arwel Williams, Llywodraeth Cymru

Ysgrifenyddiaeth:

Bronwen Martin, CNC

Ymddiheuriadau:

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Liz Franks, Hafren Dyfrdwy

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Kate Snow, United Utilities

Rachael Madeley Davies, HCC

Ieuan Stephen Davies, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Eitem 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

1. Croesawodd Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp y Fforwm) pawb i'r cyfarfod Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Estynnodd groeso i Rhys A. Jones sy'n aelod newydd o Fwrdd CNC ac a fydd yn cadeirio'r Fforwm ac Is-Grŵp y Fforwm o fis Mai 2023 ymlaen. Soniodd Zoe am awgrym lle gallai cyfarfodydd Is-Grŵp y Fforwm gynnwys 'Cadeirydd cylchdro' a gofynnodd i'r aelodau feddwl am y posibilrwydd hwn. Cyflwynodd Rhys ei hun yn fyr.
2. Mae'r cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn nodi'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
3. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda.
 - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi cwblhau ffurflenni datgan buddiannau ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt ddi-ddordeb mewn unrhyw beth ar yr agenda.

Eitem 2 Adolygiad o gofnodion a chamau gweithredu

4. Cadarnhaodd Zoe, unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan y grŵp, y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC i'r cyhoedd gael eu gweld. Felly, mae'n bwysig bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp gofnodion cyfarfod blaenorol 20 Chwefror 2023. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac awgrymiadau ar gyfer newidiadau mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Chwefror.
6. Rhannodd Bronwen Martin y log camau gweithredu ac adolygwyd y camau sy'n weddill. Dosbarthwyd Papur Diweddarau Is-Grŵp y Fforwm cyn y cyfarfod a oedd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys ymatebion i gamau gweithredu yn ymwneud â'r Prosiect Llaeth, Data Llygredd Amaethyddol Sylweddol, Adolygiad Datganiadau Ardal CNC a Chynllun Corfforaethol CNC.

7. Dywedodd Bronwen ei bod wedi cwrdd â Zoe, Marc a Chris i drafod ffyrdd o symud y grŵp o hyn ymlaen. Penderfynon nhw y byddai'n dda cysylltu eitemau'r agenda ag amcanion y grŵp. Roedd agenda'r cyfarfod heddiw yn cynnwys cefndir byr i bob eitem yn ogystal â'u cysylltiad ag amcanion Is-Grŵp y Fforwm.
8. Rhoddodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru ddiweddarad byr ar lafar am gyfnodau grantiau buddsoddi slyri ar hyn o bryd/y dyfodol. Dywedodd Andrew fod ei gydweithiwr Kevin Taylor wedi rhoi rhywfaint o wybodaeth - roedd 364 o geisiadau llawn wedi'u dewis a thua 301 wedi'u derbyn. O'r rheini, roedd 236 wedi cyflwyno ceisiadau llawn a hyd yma, mae 40 o gontractau wedi'u cynnig a 20 o'r rheini wedi'u derbyn ac mae CDG yn dal i weithio drwy'r arfarniadau hynny. O ran unrhyw grantiau yn y dyfodol, does dim i'w adrodd ar hyn o bryd, ond dywedodd Andrew y gallai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp. Mae'r cyfnod ymgeisio am y grant bellach ar gau, ac ni ddylid ystyried ceisiadau na datganiadau o ddi-ddordeb mwyach. Mae'n gynllun buddsoddi Rheoli Maethynnau ar gyfer ystod o ymyriadau i fynd i'r afael â materion rheoli maethynnau yn cynnwys storio slyri. Roedd cyfanswm o £15 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y grant ond o ran y ceisiadau a dderbyniwyd, nid yw wedi'i wario'n llawn. Doedd gan Andrew ddim gwybodaeth am gyfnodau ymgeisio am y grant yn y dyfodol.

Dywedodd Fraser McAuley, CLA os nad yw'r gwariant wedi'i ddefnyddio'n llawn neu os nad oes digon o bobl yn gwneud cais i ddefnyddio'r dyraniad cyfan, yna efallai ein bod ni'n gwneud rhywbeth o'i le, er enghraifft, ddim yn ei rannu'n ddigon eang gyda ffermwyr. Awgrymodd Fraser fod hyn yn rhywbeth i'w ystyried a bod angen i ni wneud mwy i annog ceisiadau o bosibl.

Dywedodd Bernard Griffiths, FUW bod rhai aelodau FUW wedi dod ar draws problem yn ymwneud â'r gwrthdaro â Rheoliadau'r Cynllun Draenio Cynaliadwy (SDCau) a'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio, mae Awdurdodau Lleol yn dweud ar gam bod angen iddynt fynd drwy'r Rheoliadau SuDS. Mae hynny'n achosi costau ac oedi ychwanegol ac mae'n debyg ei fod yn effeithio ar nifer y bobl sy'n gwneud cais am grantiau. Cafodd FUW rywfaint o adborth gan aelodau mewn ardaloedd dwys isel fel Meirionnydd sy'n cael trafferth mynd drwy'r broses gynllunio mewn da bryd i fodloni'r rheoliadau a chael gafael ar adeiladwyr. Mae FUW wedi siarad am hyn yn y gorffennol ac mae angen mynd i'r afael â'r broblem, neu ni fydd ffermwyr yn gallu cydymffurfio â'r rheoliadau newydd.

Awgrymodd Zoe y gallai Andrew drosglwyddo'r sylwadau hyn i'w gydweithiwr Kevin fel ei fod yn ymwybodol o'r sefyllfa ynghylch amserlenni ac anawsterau. Dywedodd Andrew fod Kevin yn ymwybodol o'r problemau a bod Llywodraeth Cymru hefyd yn trafod hyn gyda'r adran Polisi Dŵr, sydd â'r arweinydd polisi ar gyfer SuDS.

Eitem 3 Materion yn codi

9. Anogwyd y grŵp i drafod unrhyw faterion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol, dogfennau perthnasol, neu bynciau diweddar.
10. Dywedodd Zoe fod y cyfarfod gyda Chris Mills, Bronwen a Marc yn ddefnyddiol iawn. Roedd Zoe am i bawb feddwl am amcanion y grŵp a dywedodd fod gennym ambell i gyflwyniad gwyach, ond ei bod yn dda tynnu sylw at y cysylltiad ag amcanion y grŵp yn

glir. Efallai y gall 'Cadeirydd cylchdro' helpu eraill i arwain ar feysydd pwnc sydd o ddiddordeb penodol i'r unigolion hynny.

11. Roedd Zoe yn cofio darllen erthygl yng nghylchgrawn Furrow am dechnoleg a ddefnyddir yn Ewrop sy'n defnyddio system is-goch i nodi faint o N, P a K sydd mewn slyri sy'n cael ei wasgaru ar y tir. Rydyn ni wedi siarad yn y gorffennol am y National Association of Agricultural Contractors (NAAC), ond heb wneud unrhyw gynnydd o ran dylanwadu ar hyfforddi ac ardystio contractwyr slyri. Efallai y gellid codi hyn a'i wthio ymlaen gan fod arloesi yn rhan allweddol o gyrraedd ein nod.
12. Soniodd Zoe am y Data Llygredd Amaethyddol Sylweddol a oedd ym Mhapur Diweddaru Is-Grŵp y Fforwm. Dywedodd Marc Williams, CNC ei fod wedi diweddaru'r graff, ac mae'n addawol bod y duedd yn gostwng. Fodd bynnag, rhaid cofio mai dyma beth sydd wedi'i adrodd a'i gadarnhau gan CNC yn hytrach na'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad o bosibl. Gallai'r tywydd (e.e. tywydd sychach y llynedd) hefyd fod wedi cyfrannu at lai o ddigwyddiadau, felly dylid ystyried yr holl ffactorau eraill. Ond mae'n addawol ac mae gwaith da'r grŵp hwn yn anfon negeseuon at ffermwyr yn helpu hefyd.

Dyweddodd Bernard fod y ffigyrau i'w croesawu'n fawr ac roedd yn derbyn pwynt Marc mai dim ond digwyddiadau sydd wedi'u hadrodd yw'r rhain. Fodd bynnag, o edrych ar y tueddiad, roedd hynny hefyd yn wir yn 2018 felly mae'r duedd yn ymddangos yn ddilys. Gallech ddadlau gyda'r holl sylw y mae llygredd amaethyddol wedi'i gael ers sefydlu'r grŵp hwn, efallai y bu mwy o adrodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf nag ar y dechrau. Cytunodd David Ball gyda'r sylwadau ond dywedodd fod ffordd bell i fynd o hyd.

Dyweddodd Dennis Matheson, TFA ei fod yn poeni cyn lleied o bobl sy'n ymwybodol o'r rheoliadau newydd mewn gwirionedd. Mae hyn yn dipyn o syndod oherwydd bod CNC, Cyswllt Ffermio a Llywodraeth Cymru ynghyd ag eraill wedi bod yn cyhoeddi gwybodaeth, ond eto mae cryn dipyn o bobl sydd ddim callach amdanynt. Dywedodd Zoe fod hynny'n bwynt pwysig iawn, a soniodd am ddiweddariad o'r cyfarfod diwethaf ynglŷn â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng CNC a Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys recriwtio staff CNC ar gyfer y Rheoliadau hyn. Dywedodd Zoe y byddan nhw'n swyddi llawn amser parhaol, nid Penodiadau Tymor Penodol, sy'n bwysig iawn. Roedd Dav Letellier, CNC, yn cytuno â hyn oherwydd gall CNC ddenu'r math cywir o bobl ar gyfer y swyddi hyn, gall gynnig cynllunio olyniaeth a sicrhau gwasanaeth gwell dros amser. Cytunwyd y gallwn ni, drwy weithio gyda'n gilydd, leihau'r tueddiad mewn achosion o lygredd yng Nghymru ymhellach.

13. Soniodd Zoe am gyfarfod Uwchgynhadledd Ffosffad y Gweinidog lle codwyd arloesedd fel pwnc trafod. Mae pobl wedi ymrwymo i gynllun gweithredu yr Uwchgynhadledd - [Lleihau Pwysau ar ddalgylchoedd afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig \(SAC\) i helpu i gyflenwi tai fforddiadwy: cynllun gweithredu.](#)

Dyweddodd David Ball fod y llwyddiannau posib o ran nifer y digwyddiadau yn newyddion da, ond bod problem llygredd gwasgaredig o hyd. Mae'r broblem ffosffadau yn digwydd mewn ardaloedd lle mae llygredd gwasgaredig drwy'r amser, felly mae'n bwysig cofio am hyn. Roedd Zoe yn cytuno ac awgrymodd y gallai'r grŵp edrych mwy ar lygredd gwasgaredig a cheisio ei ddeall yn well.

Dyweddodd Dennis ei bod yn ymddangos mai ychydig iawn o gynrychiolwyr y diwydiant amaethyddol oedd yn yr Uwchgynhadledd Ffosffad. Roedd Dennis yn amau efallai nad oedd trefnwyr yr Uwchgynhadledd yn ymwybodol o'r gwaith enfawr y mae'r grŵp hwn wedi'i wneud ar ffosffadau ac nad oes digon o integreiddio a rhannu gwybodaeth. Dywedodd Zoe fod hyn wedi'i godi yn y cyfarfod diwethaf, yn enwedig pryder y grwpiau gwahanol a sicrhau nad yw pethau'n cael eu dyblygu.

O ran pwynt David am lygredd gwasgaredig, gofynnodd Dav a yw'n glir beth oedd yn cael ei wneud mewn mannau eraill ar lygredd gwasgaredig (e.e., atebion, dulliau ac ati) ac awgrymodd y dylid cynnal adolygiad llenyddiaeth. Soniodd Dav am ei brofiad personol o ymweld â ffermydd yn Ffrainc, llawer ohonynt naill ai'n ffermydd a oedd yn trin/troi y tir ychydig iawn neu ddim o gwbl, gyda llawer llai o golli maethynnau a llygredd gwasgaredig – mae pethau sy'n cael eu gwneud yn llwyddiannus gyda chanlyniadau da o ran hyfywedd ffermydd, enillion amgylcheddol, a chynaliadwyedd. Gofynnodd Dav a yw'r dystiolaeth hon wedi'i choladu.

PG 01 Mawrth: Dav Letellier i edrych ar gyfuno tystiolaeth a gwybodaeth am dechnegau i leihau llygredd gwasgaredig.

14. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill gan y grŵp.

Eitem 4 Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI)

15. Rhoddodd Bronwen Martin, CNC drosolwg a diweddariad ar broses y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI). Mae archwilio cyfleoedd o dan y SBRI yn cysylltu ag amcanion Is-Grŵp y Fforwm, yn enwedig 'datblygu a chyflawni prosiectau arloesol i helpu i leihau achosion o lygredd amaethyddol yng Nghymru'.
16. Mae SBRI yn ymwneud â chysylltu heriau'r sector cyhoeddus â syniadau arloesol gan ddiwydiant, gan alluogi sefydliadau i ddefnyddio technoleg sy'n datblygu ac atebion newydd i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithas a chefnogi busnesau i dyfu a datblygu yr un pryd. Yn ôl [Busnes Cymru - SBRI](#), y nod yw galluogi'r sector cyhoeddus i weithio gyda diwydiant yn ystod y camau datblygu cynnar, er mwyn dylunio atebion pwrpasol, wrth alluogi busnesau i ymchwilio i gyfleoedd newydd trwy gontractau ymchwil a datblygu wedi'u hariannu'n llawn. Gellir archwilio syniadau newydd trwy raglen ddatblygu raddol a fydd yn lleihau'r risg i'r naill barti a'r llall ac yn helpu i nodi'r prosiectau mwyaf addawol.
17. Efallai y bydd rhai aelodau yn cofio i Gareth Browning roi cyflwyniad am SBRI mewn cyfarfod ym Mangor yn 2019 ([Cyfarfod Is-Grŵp WLMF - Gorffennaf 2019](#)). Rhoddodd Gareth drosolwg o'r broses a rhai enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus SBRI. Mae enghreifftiau pellach o heriau llwyddiannus ar wefan Busnes Cymru – [Busnes Cymru - SBRI](#). Yn dilyn cyflwyniad Gareth, anogwyd aelodau i nodi ystod o bryderon yn ymwneud â llygredd amaethyddol, y gellid eu cyflwyno wedyn fel heriau SBRI posib. Hefyd, dywedodd Gareth y dylai'r prif heriau fod yn eang eu natur er mwyn i sefydliadau posib awgrymu a datblygu atebion arloesol.
18. Mae proses SBRI wedi'i rhannu'n ddau gam. Cam 1 yw astudiaeth dichonoldeb technegol. Bydd yr her yn cael ei hysbysebu ar wefan 'Gwerthwch i Gymru' ac yn ystod y cyfnod hwn byddai sesiwn briffio yn cael ei chynnal i egluro'r her. Ar ôl dyddiad cau'r cyfnod ymgeisio, bydd y panel sy'n cynnwys sefydliadau arweiniol a phartneriaid (er

enghraifft, aelodau ArloesiAber ac Is-Grŵp y Fforwm) yn cyfarfod i ddewis y ceisiadau llwyddiannus i'w cyf-weld ac yna'n dewis busnesau i gyflawni'r cam cyntaf. Dylai cynigion Cam 1 ganolbwyntio ar ddarparu dichonoldeb gwyddonol, technegol a masnachol prosiectau arfaethedig. Mae canlyniadau Cam 1 wedyn yn penderfynu a allai'r ateb fynd yn ei flaen i Gam 2, ond ni fydd pob prosiect yn symud ymlaen i'r ail gam. Fel arfer, mae cam un yn para tua thri i chwe mis, gyda chontractau gwerth rhwng £10,000 a £50,000.

19. Mae potensial y bydd y prosiect yn symud ymlaen i Gam 2, sef datblygu a gwerthuso prototeip, ond bydd hynny'n amlwg yn dibynnu ar ganlyniadau Cam 1. Mae arddangos prototeip hefyd yn digwydd yng Ngham 2. Fel arfer bydd Cam 2 yn para rhwng 12 a 24 mis gyda chontractau gwerth £250,000 hyd at £1,000,000. Byddai angen archwilio'r ffynonellau cyllid posib ar gyfer yr her hon ar gyfer Cam 2 a byddai hynny'n cynnwys cyfraniadau mewn nwyddau gan aelodau'r grŵp hwn (e.e., adnoddau neu gyllid).
20. O ran her SBRI Is-Grŵp y Fforwm, cyflwynwyd a derbyniwyd Datganiad o Ddiddordeb (EOI), a'r teitl yw 'sut gallwn ni helpu ffermwyr i ddefnyddio gwrteithiau organig a gwrteithiau a weithgynhyrchwyd mewn ffordd sy'n cefnogi cynhyrchiant ffermydd heb achosi llygredd a difrod amgylcheddol a defnyddio maethynnau yn fwy effeithlon'.
21. Yn dilyn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru, ArloesiAber, ac Innovate Strategy ddiwedd y llynedd, buom yn trafod rhannu'r her yn 3 adran a fyddai'n helpu i dargedu'r meysydd sydd angen eu harchwilio a'n helpu i gyflawni ein tasg benodol. Fel arall, gallai'r her fod yn rhy eang ac yna ni fyddai'n cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
22. O ran y camau nesaf, mae angen i ni gwblhau'r her arfaethedig (gan gynnwys y tair rhan ar wahân), llenwi a chyflwyno'r ffurflen gais lawn a phenderfynu a fyddai unrhyw aelodau yn fodlon eistedd ar y panel dethol pan fydd yn cyrraedd y cam hwnnw a hefyd nodi pwy sy'n barod i gefnogi prosiect SBRI (e.e., archwilio ffynonellau cyllid ar gyfer Cam 2, cyfraniadau o fath arall (amser ac adnoddau).
23. Dywedodd Zoe fod hyn yn gynnydd da. I ddechrau, hoffem bobl i helpu i lenwi'r ffurflen gais a gwirfoddoli i fod ar y panel a fydd yn asesu'r ceisiadau. Mae cynigion a ddaw i law ar gyfer y prosiect yn amodol ar symud ymlaen i Gam 2, a dyna pryd fydd angen i ni ganfod ffynonellau cyllid.
24. Roedd Bronwen yn cydnabod y bydd angen i bobl drafod hyn gyda'u sefydliadau mwy na thebyg, ond rydym ni'n gobeithio cyflwyno'r ffurflen gais cyn gynted ag y bo modd er mwyn symud ymlaen o fewn blwyddyn ariannol nesaf 2023/2024.
25. Gofynnodd Bernard i Rhys a yw hyn yn rhywbeth y gallai'r grŵp arloesi ym Mhrifysgol Aberystwyth ei arwain. Dywedodd Rhys y byddai'n ddiddorol cael sgwrs a'i fod yn rhywbeth i fynd ar ei drywydd. Dywedodd Marc ein bod wedi cwrdd ag ArloesiAber ond na allant ei arwain mewn gwirionedd gan eu bod eisoes wedi arwain prosiect SBRI - ond y gallant ein cefnogi ni. Ar hyn o bryd rydym ni'n cael trafodaethau o fewn CNC i archwilio sut mae modd sicrhau arian ac adnoddau i rywun arwain y prosiect.
26. Dywedodd Russ Thomas, HCC y byddai'n awyddus i eistedd ar y panel ond y byddai angen iddo gyfeirio'n ôl at HCC cyn cadarnhau. Fodd bynnag, efallai y bydd yn gweithio ar brosiect posib i'w gyflwyno ac y bydda hynny'n achos clir o wrthdaro buddiannau.

Dyweddodd Zoe y byddai'n wych i Russ fod ar y panel, a bod modd rheoli'r gwrthdaro buddiannau wrth fynd ymlaen.

27. Dywedodd Dav ei bod hi'n anodd i aelodau wneud ymrwymiad nawr. Felly efallai y gall pobl feddwl am y peth, a gallwn drefnu galwad byr MS Teams i unrhyw un sydd â diddordeb mewn trafod hyn ymhellach, i ofyn cwestiynau a chael mwy o wybodaeth. Dylid gwahodd yr holl aelodau a dylai'r rhai sydd am gymryd rhan neu sydd â diddordeb dderbyn a mynychu'r sesiwn, a dylai'r rhai nad ydynt am gymryd rhan wrthod y cais.

PG 02 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i drefnu sesiwn MS Teams fer gyda'r aelodau i drafod cyfle SBRI.

28. Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru ei bod yn debygol y byddai gan Dŵr Cymru ddiddordeb yn hyn a gofynnodd a fyddai modd darparu Nodyn Briffio i'w rannu gyda chydweithwyr. Dywedodd Sarah ei bod hi'n aelod o'r Tîm Dalgylch Dŵr Yfed, ond efallai y byddai gan rannau eraill o'r busnes ddiddordeb ynddo.

PG 03 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i ddarparu Nodyn Briffio ar y cyfle SBRI y gellir ei ddosbarthu i'r aelodau a'u sefydliadau cyn y cyfarfod SBRI.

PG 04 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i rannu fersiwn ddrafft o ffurflen gais SBRI a chopi o'r cyflwyniad.

29. O ran archwilio'r cyllid, dywedodd Marc fod hyn ar gyfer Cam 2 ac nad oes rhaid iddo ddod gan unrhyw un o'r sefydliadau ar y grŵp hwn; gall ddod o ffynonellau allanol. Mae ArloesiAber wedi defnyddio cyllid gan BT ar gyfer rhai o'u prosiectau. Fodd bynnag, gyda'n ffurflen gais, mae angen i ni gynnwys faint y byddai'n ei gostio yn fras a nodi a oes gennym ffynonellau cyllid posib, hyd yn oed os na awn ni ymhellach na Cham 1. Cadarnhaodd Marc y gall Llywodraeth Cymru ddarparu 100% o gyllid ar gyfer Cam 1, sef £20K hyd at £50K. Gallwn gyflwyno tri ymgeisydd am £20K yr un. Ni all Llywodraeth Cymru ariannu Cam 2 i gyd, byddai tua 40% gan Lywodraeth Cymru ond yna mae angen i ni ddod o hyd i'r 60% sy'n weddill.

30. Dywedodd Bernard mai datblygwyr adeiladu yw un o brif fuddiolwyr hyn, felly efallai y gallent fod yn gyllidwyr posib ar gyfer y cyfle hwn.

Eitem 5 Prosiect Llwytho Maethynnau

31. Ymunodd John Williams, ADAS â'r cyfarfod i roi cyflwyniad am y Prosiect Llwytho Maethynnau:

- **Pecyn Gwaith 1: Cyfyngiadau i adfer ac ailgylchu maethynnau i dir amaethyddol yng Nghymru**
- **Pecyn Gwaith 2: Aseiad o'r banc tir yng Nghymru ar hyn o bryd**

32. Darparwyd cefndir cryno gan John. Amcangyfrifir bod 10 miliwn tunnell o ddeunyddiau organig yn cael eu rhoi ar dir amaethyddol yng Nghymru. Mae tua 1.4 miliwn hectar o dir amaethyddol (ac eithrio coetir, 'tir arall' a thir pori garw). Mae cyfyngiadau ffisegol a rheoleiddiol yn cyfyngu'r banc tir sydd ar gael ar gyfer defnyddio tail. Mae angen

cynyddol i ddeall effaith llwyth maethynnau ar lygredd gwasgaredig. Cynhaliodd y prosiect hwn ymarfer modelu gan ddefnyddio offeryn meddalwedd ALLOWANCE i asesu'r banc tir sydd ar gael ar gyfer deunyddiau organig yng Nghymru.

33. Meddalwedd seiliedig ar GIS (Nicholson et al., 2012) yw ALLOWANCE a ariannwyd yn wreiddiol gan Defra. Mae'n ddata gofodol fel cyfres o haenau map (arwynebedd/defnydd tir amaethyddol, niferoedd da byw ac ati). Cyfrifir y banc tir ar gyfer sgwariau grid 10 x 10 km yn seiliedig ar y canlynol:
- Cyfyngiadau ffisegol (e.e., llethr, agosrwydd at gyrsiau dŵr)
 - Defnydd tir (tir âr, glaswellt, codlysiau, barod i'w fwyta)
 - Rheoliadau (Rheoliadau Adnoddau Dŵr, Defnyddio Slwts mewn Amaethyddiaeth, matrices slwts diogel, dynodiadau tir Glastir, SoDdGA, RAMSAR ac ati, Henebion cofrestredig)
34. Dangosodd John rai o'r allbynnau mapio banciau tir a gynhyrchwyd yn ystod yr ymarfer modelu gan gynnwys cyn ac ar ôl cyfyngiadau, dosbarthiad tir âr, dosbarthiad glaswelltir ac ati. Hefyd, amlinellodd y ffynonellau data gwahanol a ddefnyddiwyd ar gyfer y prosiect a darparodd ddelweddau o setiau data enghreifftiol.
35. Rhoddodd John drosolwg o'r cyfyngiadau a ddefnyddir yn y gwaith modelu (e.e., terfynau llwytho deddfwriaethol, tir dynodedig ac ardaloedd gwarchodedig, terfynau metel pridd ac ati.). Yna darparodd John rai ffigurau ar gyfer y banc tir a oedd ar gael yn seiliedig ar senarios gwahanol a rhoddodd grynodedb o rai o gasgliadau'r gwaith hwn.

PG 05 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu copi o gyflwyniad John Williams, ADAS ar y Prosiect Llwytho Maethynnau ynghyd â'i fanylion cyswllt.

36. Gofynnodd Rhys a fyddai'r canfyddiadau a'r patrymau yn wahanol pe bai mewn cydraniad uwch yn hytrach na'r sgwariau grid 10 x 10 km ac a oes angen fersiwn newydd o ALLOWANCE er mwyn ei wneud mewn ffordd fwy soffistigedig. Esboniodd John pam nad oedd yn credu y byddai dadansoddi i'r lefel fanwl honno yn helpu oherwydd mae'n debyg mai'r un fyddai'r neges.
37. Cododd Bernard Griffiths, FUW bryderon am gywirdeb y sgwariau grid 10 x 10 km a gofynnodd am lefel y manylder ar gyfer mathau o gynefinoedd ledled Cymru. Dywedodd John ei fod yn eithaf da oherwydd mae wedi'i gynnwys i ryw raddau gan fod defnydd tir yn cael ei reoli gan dopograffeg. Er enghraifft, os oes gennych gae serth iawn, ni fyddwch yn gallu gwasgaru tail ac yna mae hynny'n golygu nad oes modd ei reoli cymaint ag o'r blaen ond y byddech yn gallu pori defaid yno. Mae hynny'n cael ei gynnwys fel rhan o'r cyfrifiadau oherwydd terfynau llwytho N tail da byw. Wrth ddatblygu'r offeryn i ddechrau, roedd pryderon ynghylch gallu adnabod busnesau fferm yn seiliedig ar leoliad a graddfa mapiau.
38. Trafododd David Ball, AHDB un o'r sleidiau am ofyniad tir ar gyfer deunyddiau organig anamaethyddol fel gweddillion treuliad anaerobig, biosolidau a chompost. Eglurodd John Williams fod y deunyddiau hynny'n cyfrif am ryw 18,000 hectar. Gofynnodd David a fyddai elfen o'r gweddillion treuliad anaerobig nad yw'n PAS 110. Cadarnhaodd John hynny, ond dywedodd nad yw'n fawr ddim o gymharu. I ryw raddau gallai fod yn oramcangyfrif o'r hyn sy'n mynd ar y tir oherwydd pan fyddwch chi'n gwneud cais am drwydded rydych chi'n gwneud cais am yr uchafswm. Dywedodd David fod y modelu'n

awgrymu bod digon o dir ar gael ar gyfer yr holl ddeunyddiau organig hyn, ond mai mater o ddsbarthiad ydyw. Dywedodd John fod hynny'n wir.

39. Dywedodd Bernard eu bod wedi trafod yr Uwchgynhadledd Ffosffad cyn i John ymuno â'r cyfarfod. Fe wnaeth John rannu ffigur ynglŷn â faint o dir yng Nghymru oedd â mynegai ffosffad 3 neu uwch, sef 126,000 hectar. Eglurodd Bernard fod hynny tua 7% o'i fynegi fel canran o'r tir amaethyddol, ond o'i fynegi fel canran o'r 'ardal wasgaradwy' sydd ar gael, mae oddeutu 9%. O ran llygredd gwasgaredig, dywedodd John fod gan amaethyddiaeth rôl i'w chwarae yn yr uwchgynhadledd ond holodd a yw'r ffigurau hynny'n awgrymu nad yw mor fawr â hynny ac a ddylid targedu unrhyw fesurau sy'n cael eu cymryd. O safbwynt llygredd gwasgaredig, dywedodd John fod y rhan fwyaf o'r ffosfforws yn mynd i ddŵr trwy ddwr ffo ac erydiad, a thrafodwyd rhai o'r mesurau posib i atal hyn. Esboniodd John fod cemeg ffosffad mewn pridd yn gymhleth oherwydd bod argaeledd ffosffad yn nŵr y pridd yn dibynnu ar lu o ffactorau, yn enwedig y gwead, ffynhonnell y ffosffad ac ati. Pan fydd y priddoedd yn llawn P, dyna pryd mae'r elfen trwytholchi yn dod yn broblem. Dywed RB209 nad oes ymateb i P o daenu ffosffad ym Mynegai 3 ac mae RB209 yn system argymell gwrtait. Felly, os ydych chi'n gwario ffortiwn ar uwchffosffad triphlyg, a'i roi ar dir Mynegai 3, ni fyddwch yn cael ymateb. Os oes gennych chi ddeunyddiau organig, yna rydych nid yn unig yn cyflenwi ffosffad, ond hefyd yn cyflwyno nitrogen, sylffwr, potash ac ati a mater organig hefyd. Dywedodd John fod hyn yn ymwneud â matrices risg ac awgrymodd fod Mynegai 3 fwy na thebyg yn isel yn nhermau risg trwytholchi ffosffad yn seiliedig ar y data a welodd.

O ran defnydd tir ac ychwanegu gwrtait, eglurodd Bernard y dylem fod yn targedu'r ardaloedd o 126,000 neu lai os ydym yn anwybyddu Mynegai 3. Roedd John yn cytuno mai dyna le dylech chi fod yn chwalu tail, ond os ydyn ni'n rhoi deunyddiau ar dir, bydd rhywfaint o ddŵr ffo yn rhywle bob amser, ond mae'n rhaid inni leihau'r risg honno ac mae cynllunio rheoli maethynnau yn hollbwysig i hynny. Mae'r data cenedlaethol sydd ar gael ar gyfer ffosfforws yn dda ond nid yw mor gynhwysfawr ag yr hoffem. Hefyd, rydym ni'n cydnabod y cafeat ynglŷn â sut mae'r cae wedi'i ddefnyddio a sut mae'r caeau wedi'u rheoli.

40. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC mai'r sbardun ar gyfer y gwaith hwn oedd gweld a fyddai gwneud pethau'n well yn cyflawni'r nodau mewn gwirionedd neu a oes angen i ni feddwl mwy am yr hyn rydym ni'n ei wneud gyda'n deunyddiau ar dir. Yr hyn sydd wedi dod allan ohono yw bod cyd-destun gofodol mawr ar gyfer hyn. Mae cryn dipyn o ragdybiaethau yn y gwaith ar ddata, cymhlethdodau ffosffad a hefyd cyfanswm y ffosffad a'r ffosffad sydd ar gael yn nhermau twf cnydau. Mae'r argymhellion presennol yn ymwneud â chynyddu twf cnydau am gyn lleied â phosib o arian ac nid o reidrwydd yn ymwneud â'r amgylchedd a lefel y llygredd neu'r effaith. Mae'r gwaith hwn wedi gwneud inni gnoi cil ar y problemau a'r heriau allweddol. Mae menter SBRI yn gyfle i arloesi, oherwydd mae rhoi deunyddiau ar dir a'r economi gylchol yn bwysig i fodloni'r targedau sero net - felly sut mae hwyluso hynny. Mae'n ymwneud â sut rydyn ni'n eu defnyddio ac yn lleihau'r effaith ar ddŵr, aer, yr amgylchedd a hefyd gwarchod ein pridd.

41. Dywedodd John fod croeso i'r aelodau gysylltu ag e'n uniongyrchol os oes ganddynt unrhyw gwestiynau.

Eitem 6 Gwyddoniaeth Dinasyddion

42. Ymunodd yr Athro Chris Collins, CNC a Dr Liz Bagshaw, Prifysgol Caerdydd â'r cyfarfod i roi cefndir i Wyddoniaeth Dinasyddion a chyflwyniad ar brosiect diweddar.
43. Yr Athro Chris Collins yw Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth CNC. Rhoddodd Chris drosolwg a diweddariad byr ar yr hyn mae CNC yn ei wneud o ran gwyddoniaeth dinasyddion. Soniodd Chris am brosiect Prosoil+ sy'n berthnasol i ffermwyr a rheolwyr tir. Mae CNC am weld sut gallwn ni helpu i gyflwyno'r prosiect hwn i fwy o ffermwyr. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at yr angen am dystiolaeth a amlinellwyd yn [CNC: Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) ar gyfer Cymru 2020](#) - sut gallwn ni wella'r defnydd cynaliadwy o briddoedd?
44. Soniodd Chris am fenter gwyddoniaeth dinasyddion [Earthtrack \(aber.co.uk\)](#). Mae CNC yn archwilio hyfforddiant posib i ffermwyr ddefnyddio Earthtrack. Mae data'n cael ei gasglu trwy ap ac yna fe'i defnyddir i gadarnhau arsylliadau ar y Ddaear (e.e., data lloeren). Mae hefyd yn cysylltu â rhaglen Living Wales, lle mae'r data'n cyfrannu at ystadegau cenedlaethol. Dywedodd Chris y byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallai ffermwyr dynnu lluniau o lannau afonydd lle mae canopi coed yn cuddio'r wybodaeth lloeren.
45. Defnyddir gwyddoniaeth dinasyddion ym maes bioamrywiaeth i ddilysu pethau fel SoDdGA. Mae CNC yn gweithio gyda'r National Biodiversity Network (NBN) Atlas. NBN Atlas yw'r casgliad mwyaf yn y DU o ddata bioamrywiaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae sawl ap cofnodi ar gael, ac mae hyn hefyd yn cyfrannu at gronfa ddata'r DU. Ochr yn ochr â'r data gwyddoniaeth dinasyddion, gallai ein helpu i ddeall beth sy'n digwydd mewn dalgylchoedd wrth i ni symud tuag at ddull rheoli sy'n fwy seiliedig ar ddalgylch.
46. Un o'r mentrau newydd gwirioneddol dda yw'r [Rivers Trust: Catchment Systems Thinking Cooperative \(CaSTCo\)](#). Mae CNC yn gweithio gyda phrosiect CaSTCo i ddatblygu'r fethodoleg, llwyfannau data a dadansoddi i sicrhau bod data'r prosiect yn ddefnyddiol. Mae chwe afon ar draws y DU sy'n cael eu monitro â gwyddoniaeth dinasyddion wrth wraidd y cyfan. Mae'n cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Afonydd ac mae llawer o gwmnïau dŵr yn cymryd rhan hefyd. Maen nhw'n ceisio dod o hyd i ddull fframwaith cytûn o sut y gall pobl fonitro'r afonydd a'r dalgylchoedd ehangach. Ynghlwm wrth hynny, mae hyfforddi gwyddonwyr dinasyddion a chymunedau lleol i gyflawni rhywfaint o'r gwaith monitro. Mae hyn yn ystyried sut gallwn ni ategu'r monitro mwy uwchdechnoleg sy'n cael ei wneud gan CNC a'r cwmnïau dŵr.
47. Crynhodd Chris rai o'r camau y mae CNC wedi ymrwymo i'w cymryd, gan gynnwys adolygu ein datganiad sefyllfa gwyddoniaeth dinasyddion, cyhoeddi cyngor er mwyn helpu i gynhyrchu data gwyddoniaeth dinasyddion a all ddiwallu ein hanghenion tystiolaeth, ystyried data gwyddoniaeth dinasyddion ochr yn ochr â'n data ein hunain fel rhan o ymchwiliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, parhau i ddadansoddi setiau data ansawdd dŵr gwyddoniaeth dinasyddion presennol, darparu eglurhad ar gyfer unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd CNC o ddata gwyddoniaeth dinasyddion a dechrau datblygu rhestr o gynlluniau safonol sy'n cynhyrchu data y gall CNC ei ddefnyddio.
48. Biocemegydd ym Mhrifysgol Caerdydd yw Liz Bagshaw, a bydd yn symud i Brifysgol Bryste o 17 Ebrill ymlaen. Roedd Liz eisiau trafod peth o'r gwaith y mae Prifysgol Caerdydd wedi bod yn ei hwyluso er mwyn galluogi gwyddonwyr dinasyddion i fonitro

ansawdd dŵr yn eu dalgylchoedd. Nid yw ansawdd dŵr yn derm absoliwt, ond term goddrychol ac eglurodd Liz mai sôn am statws cemegol mae hi wrth gyfeirio at ansawdd dŵr, ond gallai hefyd fod y statws biolegol neu hyd yn oed y statws radiolegol. Wrth feddwl am ddata ansawdd dŵr, mae'n bwysig ein bod ni'n meddwl am y cwestiynau rydym ni eisiau i'r data hwnnw eu hateb.

49. Os ydyn ni'n meddwl am fonitro ansawdd dŵr yn statudol (mae'r cyflwyniad hwn yn ymwneud â safbwynt dalgylch Gwy), mae'n cael ei wneud gan asiantaethau ac mae'n gyfrifol am gydymffurfio â chyfarwydddebau amrywiol – cafodd hyn ei reoli'n flaenorol gan y Cyfarwydddebau Fframwaith Dŵr. Yn gyffredinol, mae'r data hwn o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy a gellir ei ddefnyddio ar gyfer prosesau cyfreithiol gan ei fod yn defnyddio dulliau a labordai achrededig. Gyda data gwyddoniaeth dinasyddion, nid ydym o reidrydd yn ymdrin â'r un math o ddata. Fodd bynnag, y broblem gyda data monitro statudol yw ei fod yn ddrud ac anodd o safbwynt logisteg. Yn ogystal, mae ein darpariaeth ofodol ac amserol yn aml yn gyfyngedig ar gyfer data monitro statudol o ansawdd uchel.
50. Does gan y rhan fwyaf o asiantaethau mo'r adnoddau i fonitro is-afonydd er mwyn deall beth sy'n digwydd a gweld sut mae pethau'n newid dros amser. Dyma le mae gwyddoniaeth dinasyddion yn camu i'r adwy. Os gallwn ni uwchsgilio gwyddonwyr dinasyddion i gasglu data a all ein helpu, yna gallwn llenwi'r bylchau yn ein rhaglenni monitro. Mae hyn hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth ac yn galluogi pobl i rannu'r cyfrifoldeb o ofalu am ddalgylchoedd afonydd. Un o'r pethau mwyaf am wyddoniaeth dinasyddion yn Afon Gwy, yw nid yn unig llenwi'r bylchau amserol hynny, ond llenwi'r bylchau gofodol a nodi ardaloedd sy'n achosi problem.
51. Yr hyn na all gwyddoniaeth dinasyddion ei wneud yw cynorthwyo gwaith monitro statudol am nad yw'n ddata achrededig. Ni allwn gael yr un ansawdd, felly allwch chi ddim defnyddio data gwyddoniaeth dinasyddion i nodi achosion ymddangosiadol o fethu targedau ACA, ni allwch ei defnyddio i gyfrifo terfynau blynyddol llwytho ar gyfer dalgylch na'i ddefnyddio i edrych ar ffracsiynau maethynnau gwahanol. Fodd bynnag, gallwn ei ddefnyddio i ddarganfod beth sy'n digwydd yn y dalgylch. Yn draddodiadol, mae data gwyddoniaeth dinasyddion wedi cael ei ystyried yn annibynadwy, naill ai oherwydd nad yw pobl ddim yn deall cywirdeb y data hwnnw, neu ei fod yn anodd ei gyrchu.
52. O safbwynt y prosiect hwn, dywedodd Liz eu bod yn ceisio cynyddu gwerth data gwyddoniaeth dinasyddion sy'n cael ei gasglu a dod o hyd i ffordd o sicrhau ei fod yn cael ei gasglu mewn ffordd safonol sy'n hawdd ei chyrru. Cawsom rywfaint o gyllid gan y Natural Environment Research Council (chwe mis o gyllid ym mis Ionawr 2021) i geisio deall trachywired a chywirdeb rhai o'r dulliau gwyddoniaeth dinasyddion sy'n cael eu defnyddio yn Afon Gwy ar hyn o bryd. Trafododd Liz yr hyn y gellir ei fesur gyda'r offer roedden nhw'n ei archwilio, fel mesur dargludedd trydanol, tymheredd, pH, ocsigen toddedig, maethynnau a chywirdeb y dŵr yn yr afon. Rhoddodd Liz drosolwg o rai o'r dulliau a ddefnyddiwyd.
53. Cynhaliwyd sawl cyfarfod rhwydwaith ar-lein, ac roeddent am rannu'r adnoddau rhwng y grwpiau gwahanol a chreu adnoddau y gellir eu rhannu dro ar ôl tro i helpu'r rhai sydd am sefydlu eu rhaglenni monitro gwyddoniaeth dinasyddion eu hunain. Aethon nhw ati i gynhyrchu ffeithlenni, fideos hyfforddi a helpu gwyddonwyr dinasyddion i sefydlu cronfa ddata ar-lein lle gallent uwchlwytho data. Yn bwysig, nid dim ond Prifysgol Caerdydd a

gwyddonwyr dinasyddion oedd yn y rhwydwaith monitro cydweithredol - ond hefyd cynrychiolwyr asiantaethau fel yr Ymddiriedolaeth Afonydd, Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Does dim pwynt i wyddonwyr dinasyddion gasglu'r data os nad oes unrhyw un yn mynd i edrych arno.

54. Rôl Prifysgol Caerdydd oedd cefnogi'r drafodaeth rhwng y grwpiau hyn a helpu'r rhyngweithio rhwng defnyddwyr y data a'r bobl ar lawr gwlad. Hefyd, fe wnaethon nhw helpu'r rhai sydd angen y data a'i ddefnyddio mewn ffordd sy'n briodol. Nid oedd Prifysgol Caerdydd yn gwneud llawer o waith dadansoddi data, dim ond datblygu'r dulliau a darparu adnoddau.
55. Ochr yn ochr â'r data gwyddoniaeth dinasyddion, fe wnaethom osod nifer o ddyfeisiau monitro amledd uchel yn y dalgylch hefyd. Gwnaethom ddefnyddio dyfeisiau sy'n mesur paramedrau ansawdd dŵr mewn cydraniad uchel ac mewn amser real. Fe'u gosodwyd mewn tri lleoliad yn y dalgylch er mwyn rhoi cyd-destun i'r data gwyddoniaeth dinasyddion.
56. Y cwestiynau ymchwil allweddol ar gyfer y prosiect oedd defnyddio gwahanol ddulliau gwyddoniaeth dinasyddion a'u cymharu â safonau proffesiynol dadansoddi ansawdd dŵr. Y nod oedd cynyddu ffydd ac ymddiriedaeth mewn data a gesglir gan wyddonwyr sy'n ddinasyddion ac yna defnyddio'r data i edrych ar batrymau gofodol ac amserol allweddol a galluogi eraill i wneud yr un peth ar draws dalgylch Afon Gwy. Y peth cyntaf i ni ganolbwyntio arno oedd pa mor dda oedd dulliau gwyddoniaeth dinasyddion a'u cymharu â'n safonau labordy. Gwnaethom ddefnyddio labordy achrededig Dŵr Cymru. Pwrpas hyn oedd ceisio cael cymhariaeth ochr yn ochr o'r holl ddulliau gwyddoniaeth dinasyddion gwahanol gyda'r safon achrededig fel y gallem gael syniad o wallau dulliau gwyddoniaeth dinasyddion.
57. Er bod prosiect Gwy wedi dod i ben, mae gwyddonwyr dinasyddion Gwy yn parhau i gasglu data. Mae'r cynllun rydym ni wedi'i sefydlu yn golygu y gall grwpiau eraill ddefnyddio'r un dulliau hyfforddi heb lawer o fewnbwn gennym ni, er enghraifft mae grŵp afon Wysg newydd ddechrau ac wedi cael bron i 400 o fesuriadau.
58. Mae Prifysgol Caerdydd yn archwilio ffyrdd o gael porth defnyddwyr lle gallwch glicio ar unrhyw le yn y wlad a gweld pa ddata gwyddoniaeth dinasyddion sydd ar gael. Gobeithio bod hyn yn rhywbeth y gallwn weithio tuag ato gyda phrosiect CaSTCo.
59. Dywedodd Rhys mai'r nod yw ceisio denu pobl unigol i gymryd rhan mewn gwaith casglu data yn hytrach na'i ddadansoddi, felly sut ydych chi'n cofrestru pobl i'w ddadansoddi. Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn pwysleisio thema afonydd a bioamrywiaeth, a oes unrhyw botensial i gynnwys plant ysgol yn y gwaith. Soniodd Liz am bennod nos Sul diwethaf o Countryfile a oedd yn dangos gwyddonwyr dinasyddion yn mynd â phlant ysgol allan i gasglu data. Gallai hyn helpu i godi ymwybyddiaeth plant o faterion/problemau'r dalgylch afon, ac mae'n adeiladu ar y broses addysg. O ran dadansoddi data, dywedodd Liz fod llawer o'r gwyddonwyr dinasyddion maen nhw'n gweithio gyda nhw yn hapus i gasglu'r data, ond nad oedden nhw'n teimlo'n ddigon cymwys i ddadansoddi'r data eu hunain.
60. Dywedodd Bernard y dylid defnyddio data mewn ffordd briodol a bod rhai o aelodau'r FUW wedi cael bygythiadau gan ymgyrchwyr. Gofynnodd Bernard sut rydych chi'n cysoni rhannu'r data a'r tryloywder sydd ei angen ond hefyd yn amddiffyn pobl a rheoli'r

sefyllfa. Dywedodd Liz fod hwn yn bwynt pwysig iawn ac yn rhywbeth mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn eithaf petrusgar amdano (e.e., y data sydd ar gael a'r angen i gadw data'n ddienw a sicrhau bod pwy sy'n casglu'r data yn anhysbys). Mae'n fater o gyfaddawdu rhwng argaeledd data a gallu adnabod unigolion sy'n casglu'r data, sy'n gydbwysedd anodd iawn. Ceir gwrthdaro'n aml, yn enwedig yn y dalgylchoedd hyn, ac mae data'n gallu cael ei ddefnyddio fel arf amhriodol. Awgrymodd Liz y dylid gweithio gyda'r gwyddonwyr dinasyddion i ddylunio'r rhaglen fonitro a chael y cwestiynau gwyddoniaeth ar flaen eich meddwl cyn llunio a chasglu'r data. Atgoffodd Liz y grŵp o'r lleoliadau amhriodol i gasglu data ar hyd afon (e.e., mesuriadau o bibell gorlif carthffosiaeth). Bydd gwella'r sianeli cyfathrebu a gwella dealltwriaeth o'r dulliau casglu data yn helpu.

Gofynnodd Bernard hefyd i ba grwpiau demograffig y mae'r gwyddonwyr dinasyddion sydd wedi bod yn helpu yn perthyn. Dywedodd Liz mai pobl wyn, dosbarth canol, sydd wedi cael addysg, ac sy'n aml wedi ymddeol ac sydd wedi gweithio mewn diwydiannau proffesiynol yw ein grwpiau demograffeg gan amlaf, nad yw'n fawr o syndod. Mae gennym rai pobl iau yn cymryd rhan ac ambell ffermwr sy'n gweithio'n agos gyda'r grwpiau. Mae gennym lawer o bysgotwyr a nofwyr gwyllt hefyd. Gyda'r holl bethau hyn, rydych chi'n dibynnu ar bobl yn rhoi o'u hamser a rhaid bod ganddyn nhw ddigon o ddiddordeb a gwybodaeth wyddonol i fod eisiau mynd allan a chasglu'r data hwn. Mae'n grŵp hunanddethol, ac un o'r pethau y gwnaethon ni geisio ei archwilio gyda'n rhaglen ysgolion oedd ceisio darganfod sut i geisio mynd y tu hwnt i gyfranwyr dosbarth canol gwyn, problem rydym ni'n dal heb ei datrys eto.

PG 06 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu copi o gyflwyniad Dr Liz Bagshaw ar Wyddoniaeth Dinasyddion.

Eitem 7 Unrhyw fater arall

61. Gofynnodd Dennis am y wybodaeth ddiweddaraf am Gwestiynau Cyffredin (FAQ) Llywodraeth Cymru ar gyfer dogfen Tenantir. Dywedodd Andrew nad oedd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fod Matt wedi bod yn rhan o hyn - rhoddir diweddariad pan fydd ar gael.
62. Holodd Dennis am y cynlluniau ar gyfer yr ymweliad safle ym mis Ebrill. Dywedodd Bronwen fod ganddi restr o leoliadau posib. Dywedodd rhai pobl y byddent yn holi ac yn rhoi gwybod i mi felly byddai'n mynd ar drywydd hyn ar ôl y cyfarfod. Unwaith y bydd y lleoliadau posib wedi'u cadarnhau, byddant yn cael eu cyflwyno i Zoe, a byddwn yn penderfynu ar leoliad wedyn. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu yn fuan.
63. Bydd cyfarfod nesaf Is-Grŵp y Fforwm yn cael ei gynnal ddydd Llun 17 Ebrill 2023.
64. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Diwedd y cyfarfod